



Cysylltu Bywydau -
Lleoli Oedolion yng Ngorllewin Cymru

Shared Lives -
Adult Placement in West Wales

CANLLAWIAU AR LEOLI OEDOLION YNG NGORLLEWIN CYMRU

Cynllun Lleoli Oedolion Gorrlewin Cymru
a
Gwasanaeth Lleoli Oedolion Sir Gâr



GWEITHIO MEWN PARTNERIAETH



Lleoli Oedolion yng Ngorllewin Cymru

Nod Cynllun Lleoli Oedolion Gorllewin Cymru a Gwasanaeth Lleoli Oedolion Sir Gâr yw:

- Darparu gwasanaethau Lleoli Oedolion sy'n seiliedig yn y gymuned ac sy'n hybu annibyniaeth a chynhwysiant cymdeithasol, ar gyfer oedolion sy'n agored i niwed.
- Recriwtio Cynhalwyr Lleoli Oedolion, eu hyfforddi a'u cefnogi i ddarparu gwasanaethau o'u cartrefi eu hunain sy'n hybu iechyd a lles pobl a leolir gyda nhw, ac sy'n canolbwyntio ar y person ac yn cael eu harwain gan anghenion.
- Trosglwyddo gwasanaethau o ansawdd uchel yn unol â chanllawiau arfer da a rheoliadau Llywodraeth Cynulliad Cymru, sy'n seiliedig ar ddiwylliant o ymddiriedaeth, didwylledd a chywirdeb.
- Cynnig gwasanaethau hyblyg a chost-efeithiol sy'n cynyddu'r dewisiadau a'r opsiynau i ddefnyddwyr gwasanaethau a hefyd yn adlewyrchu blaenoriaethau pwrcasu comisiynwyr a buddsoddwyr.

Beth Yw Lleoli Oedolion?

Mae Lleoli Oedolion yn golygu darparu llety, cefnogaeth a/neu ofal i oedolion sy'n agored i niwed, a hynny o gartrefi teuluoedd a phobl sy'n byw yn y gymuned. Mae'r teuluoedd a'r bobl sy'n byw yn y gymuned yn cael eu recriwtio'n arbennig. Mae Cynllun Lleoli Oedolion Gorllewin Cymru a Gwasanaeth Lleoli Oedolion Sir Gâr yn cymeradwyo'r bobl hyn i ddarparu gwasanaethau Lleoli Oedolion.

Mae Cynhalwyr Lleoli Oedolion cymeradwy yn ymgymryd i integreiddio pobl sy'n defnyddio'r gwasanaethau a ddarperir ganddynt i mewn i'w cartrefi i ddarparu'r gefnogaeth briodol a/neu'r gofal am ffi y cytunir arno.

Cefnogir Cynhalwyr Lleoli Oedolion i gwrdd ag anghenion pobl sy'n byw gyda nhw yn unol â'r rheoliadau a'r safonau a ddefnyddir ar gyfer darpariaeth Lleoli Oedolion yng Nghymru. Darperir y gefnogaeth hon gan Swyddogion Lleoli Oedolion, sydd, trwy gysylltiad rheolaidd ac adolygiadau lleoliad, yn monitro'r gwasanaethau a ddarperir ganddynt.

Mae Cynllun Lleoli Oedolion Gorllewin Cymru a Gwasanaeth Lleoli Oedolion Sir Gâr yn hybu gallu unigolion i fyw bywyd 'cyffredin' ac annibynnol yn eu cymuned ac i fwynhau'r holl hawliau a chyfrifoldebau sydd gan unrhyw ddinesydd yn y gymuned honno. Gwneir hyn trwy ddarparu amrywiaeth o opsiynau gwasanaeth o ansawdd uchel ar gyfer oedolion sy'n agored i niwed, a atgyfnerthir gan y gwerthoedd canlynol:

1. Cynyddu Cyfleoedd -

Cynnig amrywiaeth o opsiynau gwasanaeth i oedolion sy'n agored i niwed, a'u teuluoedd, sy'n cynnwys lleoliadau hir dymor, seibiannau byr, lleoliadau brys a gwasanaeth sesiynol/ dydd.



2. Hybu Dewis a Rheolaeth -

Trwy gynllunio sy'n canolbwyntio ar y person, galluogi pobl i gael cymaint o ddewis a rheolaeth â phosib dros y cymorth/gofal y maen nhw'n ei gael.

3. Cefnogi Cynhwysiant –

Darparu gwasanaethau cymorth yn ymwneud â thai sy'n datblygu ac yn cynyddu'r cyfleoedd sydd ar gael i oedolion sy'n agored i niwed i fyw yn y gymuned ac i integreiddio i'w bywyd.

4. Sicrhau Ansawdd –

Gweithredu systemau safonau ansawdd sy'n fesuradwy, yn dryloyw ac yn atebol ac yn cwrdd â'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer darparu Lleoliadau Oedolion yng Nghymru.

5. Cefnogi Iechyd a Lles Da -

Darparu gwasanaethau sy'n annog ac yn hybu ffyrdd iach o fyw, sy'n ddiogel ac yn cefnogi pobl i gael mynediad i wasanaethau iechyd.

6. Helpu Teuluoedd a Chynhalwyr Anffurfiol -

Darparu gwasanaethau sy'n hyblyg ac yn ymateb i anghenion teuluoedd a/neu gynhalwyr anffurfiol.

7. Darparu Gwybodaeth –

Darparu gwybodaeth ynghylch Lleoli Oedolion sy'n hygyrch i gomisiynwyr, defnyddwyr gwasanaethau a theuluoedd.

8. Cydweithio –

Gweithio mewn partneriaeth gyda Chynhalwyr Lleoli Oedolion, ein buddsoddwyr a'n rhanddeiliaid, i adolygu a gwerthuso gwasanaethau a drosglwyddir. Ymateb i flaenoriaethau pwrcasu comisiynwyr ar sail anghenion pobl sy'n defnyddio Lleoli Oedolion a ddaeth i'r amlwg mewn asesiadau angen.

Mae timau staff Lleoli Oedolion y Cynllun a'r Gwasanaeth wedi ymrwymo i weithio gyda Chynhalwyr Lleoli Oedolion a gymeradwywyd, i hybu lles corfforol, emosiynol a phersonol pobl sy'n cael lleoliadau oedolion trwy sicrhau bod y gwasanaethau y mae pobl yn eu cael yn ddiogel ac yn cwrdd yn briodol â'u hanghenion.

Dyma'r gwasanaethau a ddarperir:

Lleoliadau Tymor Hir:

Darperir llety gyda chymorth a/neu ofal ar gyfer pobl sydd angen sefydlogrwydd a dilyniant ac y mae modd cwrdd â'u hanghenion trwy roi cyfle iddynt fyw fel rhan o deulu. Mae lleoliadau tymor hir yn para am sawl blwyddyn, ac yn galluogi pobl i fwynhau'r cyfleoedd a'r profiadau y mae bywyd y teulu neu'r cartref yn gallu eu rhoi.

Lleoliadau Tymor Byr:

Darperir llety gyda chymorth a/neu ofal gan Gynhalwyr Lleoli Oedolion am gyfnod penodol. Er enghraifft, efallai y bydd rhywun yn byw mewn Lleoliad i Oedolyn am 6 mis i feithrin hyder er mwyn gallu byw'n fwy annibynnol yn y dyfodol.



Seibiannau byr:

Mae Cynhalwyr Lleoli Oedolion yn darparu gwyliau byr wedi'u cynllunio ar gyfer Defnyddwyr Gwasanaethau a'u teuluoedd, neu Gynhalwyr Lleoli Oedolion eraill. Mae Defnyddwyr Gwasanaethau yn gallu defnyddio Seibiannau Byr os ydynt am brofi gwahanol fathau o fywydau neu, yn syml, eisiau gwyliau.

Lleoliadau Brys:

Weithiau, fe fydd person angen llety, cefnogaeth a/neu ofal ar fyr rybudd, er enghraifft os oes salwch neu argyfwng teuluol. Fel arfer, mae lleoliadau brys yn para am gyfnod cyfyngedig ac yn eithaf byr.

Gwasanaethau Sesiynol a Dydd:

Mae Cynhalwyr Lleoli Oedolion yn cynnig cefnogaeth a/neu ofal o'u cartrefi eu hunain yn ystod y dydd, gyda'r hwyr a dros y penwythnos, ar sail sesiynol.

Pam Mae Angen Gwasanaethau Lleoli Oedolion?

Mae gan bobl sydd angen cefnogaeth a llety amrywiaeth eang o anghenion unigol. Mae Lleoli Oedolion yn cynnig opsiynau eraill i oedolion sy'n agored i niwed yn lle gwasanaethau mwy traddodiadol mewn adeilad arbennig. Os nad yw pobl yn gallu byw yn eu cartrefi eu hunain, neu os ydynt yn dewis peidio â byw yn eu cartrefi eu hunain, mae Lleoli Oedolion yn cynnig model cymorth a/neu ofal a arweinir gan anghenion ac mae'n galluogi pobl i aros yn rhan o fywyd y gymuned.

Mae byw gyda Chynhaliwr Lleoli Oedolion, neu gael cefnogaeth ganddynt, yn annog estyniad rhwydweithiau cymdeithasol. Mae'n cynnig cyfleoedd ychwanegol i bobl ddysgu neu gadw sgiliau a chael profiadau ehangach o fywyd na fyddai ar gael iddynt, efallai, fel arall. Mae seibiannau byr yn rhoi cyfle i bobl fwynhau wythnos neu ddwy mewn amrywiaeth o leoliadau gwahanol, lle gall gweithgareddau gael eu teilwra at hoff bethau a chas bethau pob person, gan sicrhau eu bod yn cael profiad positif a fydd yn atgof pleserus.

Pwy Fydd Yn Defnyddio'r Gwasanaethau Hyn?

Mae Lleoliadau Oedolion yn addas i bob un sydd angen cefnogaeth a/neu ofal gan berson arall yn eu bywyd bob dydd. Maen nhw'n gallu amrywio o bobl sydd angen cymorth cyson i bobl sydd angen gwybod bod rhywun yno ar eu cyfer. Gallent fod yn berson hŷn, yn berson gydag anableddau corfforol, problemau iechyd meddwl neu anableddau dysgu, neu rywun sy'n camddefnyddio sylweddau. Am nifer o resymau, fel afiechyd neu farwolaeth rhieni hŷn, efallai na fydd rhai pobl yn gallu parhau i fyw gartref ac ni fyddent eisiau byw mewn gofal preswyl. Felly, byddai byw, neu aros, gyda Chynhaliwr Lleoli Oedolion a gymeradwywyd, yn rhoi cyfle i'r person i aros mewn amgylchedd cartref.

Gobeithir y bydd pobl sy'n chwilio am lety gyda'r gwasanaeth yn cael eu cyfateb at Gynhaliwr Lleoli Oedolion mor agos at eu cartrefi naturiol â phosib, fel bod modd iddynt gadw cysylltiad gyda'u teuluoedd a'u ffrindiau, a pharhau gyda'u gweithgareddau cymdeithasol a dyddiol arferol. Fe fydd rhai pobl yn cael gwasanaethau dydd; efallai y bydd eraill yn mynd i'r gwaith neu'r coleg.



Pwy Yw'r Cynhalwyr Lleoli Oedolion Sydd Wedi'u Cymeradwyo?

Mae Cynhalwyr Lleoli Oedolion yn dod o bob math o gefndiroedd. Mae rhai'n sengl, mae gan rai deuluoedd, mae yna rai heb deuluoedd, ac mae rhai wedi ymddeol. Rydyn ni'n recriwtio pobl 'cyffredin' sydd â'r amser, yr ymroddiad a'r dyhead i helpu rhywun sydd angen llety, cefnogaeth a/neu ofal. Nid oes angen unrhyw gymwysterau arbennig ac nid oes angen unrhyw brofiad gwaith penodol.

Mae angen bod yn amyneddgar, yn hyblyg, yn gyson a chael sefyllfa sefydlog yn y cartref, ac mae angen bod yn awyddus i ddysgu.

Os oes gennych y rhinweddau hyn, a'r math o gartref a fyddai'n addas i'w rhannu gydag oedolion eraill sy'n agored i niwed, yna efallai y byddech chi'n Gynhaliwr Lleoli Oedolion addas.

Beth Mae Dod Yn Gynhaliwr Lleoli Oedolion Yn Ei Olygu?

Caiff y ddarpariaeth Lleoli Oedolion ei strwythuro'n ofalus i sicrhau bod Cynhalwyr Lleoli Oedolion a gymeradwywyd yn cael eu dewis, eu hyfforddi a'u cefnogi i safon uchel. Mae bod yn Gynhaliwr Lleoli Oedolion a gymeradwywyd yn swydd werth chweil a hefyd yn un cyfrifol iawn. Dyma pam mae'r broses ddethol mor drwyadl.

Mae darpar Gynhalwyr Lleoli Oedolion yn mynd trwy broses ymgeisio ac asesu chwe cham cyn iddynt allu darparu gwasanaethau Lleoli Oedolion. Mae cam 1 i 3 y broses yn golygu gofyn am eirida, datgeliad gan y Swyddfa Cofnodion Troseddol ac asesiad sylfaenol o gartref y darpar gynhaliwr. Er bod hon yn broses ffurfiol, mae'n ffordd angenrheidiol a phwysig o sicrhau nad ydym yn gosod oedolion sy'n agored i niwed gyda phobl sydd ddim yn gallu cefnogi a/neu ofalu amdanynt yn iawn.



Mae camau 4 a 5 yn golygu bod Swyddog Asesu yn cynhyrchu adroddiad asesu y bydd yn ei gyflwyno i 'Banel Cymeradwyo'. Mesurir pa mor addas yw ymgeisydd i ddod yn Gynhaliwr Lleoli Oedolion yn erbyn '25 datganiad o sgiliau a gwybodaeth'. Mae'r datganiadau hyn yn diffinio'r hyn sy'n hanfodol i unrhyw un sydd eisiau dod yn Gynhaliwr Lleoli Oedolion. Cam 6 y broses ymgeisio yw'r cam pryd y bydd Cynhaliwr Lleoli Oedolion wedi cael ei gymeradwyo/chymeradwyo gan y Panel ac yn llofnodi'r Cytundeb Cynhaliwr Lleoli Oedolion.

Fe fydd cymeradwyaeth pob Cynhaliwr Lleoli Oedolion yn cael ei adolygu bob blwyddyn. Amod o gymeradwyaeth Cynhaliwr Lleoli Oedolion yw eu bod yn cydymffurfio gyda'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Cynlluniau Lleoli Oedolion o dan 'Rheoliadau Cynlluniau Lleoli Oedolion 2004'.

Y '25 Datganiad O Sgiliau A Gwybodaeth':

1. Yn gallu cael gwybod am unrhyw anghenion corfforol, cymdeithasol, emosiynol neu ddiwylliannol penodol sydd gan y person yr ydych yn ei g/chefnogi, ac yn gallu eu diwallu
2. Galluogi pobl i wneud dewisiadau a phenderfyniadau gyda chymorth eiriolwyr os oes angen
3. Deall a herio rhagfarn, gwahaniaethu a gorthrwm
4. Deall anghenion a ffyrdd o fyw pob aelod o'r teulu a chadw cydbwysedd rhyngddynt
5. Helpu pobl i gyfathrebu'n effeithiol
6. Cyfathrebu'n effeithiol
7. Darparu lle iach a diogel i aros
8. Cefnogi pobl i fod yn rhan o'u cymuned
9. Deall cyfrinachedd a phreifatrwydd, a'u parchu
10. Galluogi pobl i feithrin a / neu gynnal cyfeillgarwch a pherthynas o fewn y teulu a thu allan iddo
11. Meithrin perthnasau positif gyda phobl eraill
12. Cadw cofnodion clir a chywir
13. Amddiffyn pobl rhag camdriniaeth ac esgeulustod
14. Helpu pobl i gyflawni eu potensial
15. Cefnogi pobl i gael mynediad at addysg, cyflogaeth a chyfleusterau hamdden
16. Datblygu eu sgiliau a'u dealltwriaeth eu hunain trwy gyfleoedd hyfforddiant a chyfleoedd eraill
17. Deall Lleoli Oedolion gan gynnwys rolau a chyfrifoldebau cynhalwyr a chynlluniau
18. Deall polisiâu, gweithdrefnau a gofynion cyfreithiol, a gweithio'n bositif gyda'r cynllun/gwasanaeth Lleoli Oedolion i'w gweithredu
19. Bod yn rhan o'r prosesau asesu sy'n canolbwyntio ar y person, cynllunio gofal ac adolygu gofal ble'n briodol
20. Helpu defnyddwyr gwasanaeth i asesu risgiau a chymryd risgiau derbynol
21. Helpu pobl i gael mynediad at wasanaethau iechyd a byw bywydau iach
22. Helpu pobl i storio'u meddyginiaethau a'u cymryd
23. Helpu pobl i reoli eu harian
24. Helpu pobl i reoli eu hymddygiad
25. Helpu pobl i addoli a dilyn eu ffydd

A Oes Dewis Gan Bobl Sy'n Derbyn Gwasanaethau?

Mae cyfateb oedolyn sy'n agored i niwed at Gynhaliwr Lleoli Oedolion yn rhan bwysig iawn o'r broses. Mae darparu lleoliad neu gynllun cymorth sy'n addas ar gyfer y ddau yn gallu cymryd amser, yn enwedig gan fod angen ystyried amrywiaeth o faterion fel:

- Y math o Gynhaliwr Lleoli Oedolion yr hoffai Defnyddiwr Gwasanaethau, a'r hyn y gallant ei gynnig.
- Anghenion arbennig y Defnyddiwr Gwasanaethau, gan gynnwys oed, rhyw a pha mor annibynnol ydynt.
- Ble mae pobl yn byw.
- Ffordd o fyw Defnyddiwr Gwasanaethau a Chynhaliwr Lleoli Oedolion, gan gynnwys tebygrwydd mewn cefndiroedd ethnig neu grefydd.

Unwaith ceir hyd i gyfatebiad addas, fe fydd cyfarfod cyflwyno yn cael ei drefnu gyda'r person sydd angen lleoliad a'r Cynhaliwr Lleoli Oedolion. Os yw pob un yn hapus gyda'r cyfatebiad, yna fe fydd cytundeb yn cael ei lunio a rhoddir dyddiad dechrau.

Cydnabyddir, unwaith y bydd pobl wedi cael eu cymeradwyo, bod eu hamgylchiadau'n gallu newid, ac felly cynhelir adolygiadau rheolaidd i edrych ar unrhyw anawsterau sydd wedi codi.

Mae'n bwysig iawn fod y Cynhaliwr Lleoli Oedolion a'r Defnyddiwr Gwasanaethau yn hollol hapus gyda'r trefniant.

Ar unrhyw bwynt yn ystod y broses gyfateb a chyflwyno, mae Defnyddiwr Gwasanaethau neu Gynhaliwr Lleoli Oedolion yn gallu 'dweud na' a diweddu'r trefniant, ac rydyn ni'n annog ac yn disgwyl i bobl fod yn agored ac yn onest am eu teimladau wrth sefydlu lleoliad ac i ddweud os oes ganddynt unrhyw bryderon neu ofnau am y cyfatebiad.

Pa Gefnogaeth A Gynigir?



Mae pob Cynhaliwr Lleoli Oedolion a gymeradwywyd yn cael Swyddog Lleoli Oedolion sy'n gallu rhoi cyngor a goruchwyliaeth a chynnig cymorth ymarferol ac emosiynol. Mae hyn yn golygu bod gan Gynhalwyr Lleoli Oedolion rywun i gysylltu â nhw sydd yno i'w cefnogi.

Fe fydd y person a leolir gyda Chynhaliwr Lleoli Oedolion yn cael Rheolwr Achosion / Gweithiwr Cymdeithasol a'u rôl yw bod yn eiriolwyr ar eu rhan a chynrychioli eu buddiannau. Mewn achosion brys, fe fydd gan Gynhalwyr Lleoli Oedolion fynediad at dîm brys o Weithwyr Cymdeithasol hefyd.

O bryd i'w gilydd, mae Cynhalwyr Lleoli Oedolion sy'n darparu lleoliadau tymor byr neu hir angen egwyl, ac felly gellir darparu seibiannau byr. Anogir Cynhalwyr Lleoli Oedolion i gymryd rhan mewn 'Grwpiau Cymorth i Gynhalwyr Lleoli Oedolion', ac i ymaelodi gyda Chymdeithas Genedlaethol Cynlluniau Lleoli Oedolion.

Pa Hyfforddiant Fyddaf Yn Ei Gael?

Unwaith mae Cynhaliwr Lleoli Oedolion wedi cael ei gymeradwyo, mae'n ofynnol iddo/iddi gael hyfforddiant Lleoli Oedolion. Er mwyn cael eu cymeradwyo, mae'n rhaid iddynt gwblhau'r hyfforddiant hwn. Yna, ceir Hyfforddiant ar ôl Cymeradwyaeth, sy'n golygu bod Cynhalwyr Lleoli Oedolion yn cynnal cofnod o gyraeddiadau hyfforddiant.

Fe fydd Cynhalwyr Lleoli Oedolion hefyd yn cael cyfle i feddwl am faterion sy'n berthnasol i ddarparu cefnogaeth a/neu ofal, a'u trafod. Mae'r testunau sy'n gallu cael sylw'n cynnwys:

- Galluogi pobl i wneud dewisiadau a phenderfyniadau a helpu pobl i fod yn rhan o'u cymuned
- Gwerthfawrogi pobl, deall a herio rhagfarn a gwahaniaethu
- Darparu lle iach a diogel i fyw
- Deall materion sy'n effeithio ar hawliau unigol pobl
- Amddiffyn oedolion sy'n agored i niwed (AOAN)

Beth Yw'r Manteision Ariannol?

Fe fydd Cynhalwyr Lleoli Oedolion yn cael taliad wythnosol trwy Gyngor Sir Gâr. Fe fydd y swm yn amrywio yn ôl y math o leoliad neu'r gefnogaeth y byddwch yn medru ei gynnig i'r person a roddir gyda chi neu a gyfatebir i chi. Mae pobl sy'n darparu llety tymor hir a seibiannau byr yn gallu disgwyl cael hyd at £350 yr wythnos, neu £50 y noson. Fe fydd Swyddog Lleoli Oedolion yn gallu rhoi mwy o fanylion.

Os Oes Diddordeb Gennych, Ond Mae Angen Ychydig O Berswâd Arnoch O Hyd Ngyhylich Manteision A Buddiannau Lleoli Oedolion, Darllenwch Ymlaen.....

"Mae'r Gwasanaeth Lleoli Oedolion wedi gwneud cymaint o wahaniaeth i 'mywyd. Nawr, rydw i'n gallu gwneud gwir ddewisiadau am bethau sy'n bwysig i mi"

"Am y tro cyntaf yn fy mywyd, rwy'n cael fy nhrin fel oedolyn"

"Nawr, rydw i'n mwynhau gwyliau rheolaidd ar fy mhen fy hun a gyda fy Nghynhaliwr Lleoli Oedolion, ac mae fy mywyd wedi newid cymaint, er gwell "

"Dydw i ddim erioed wedi cael gymaint o arian i'w wario arna i fy hun. Rydw i wedi gallu prynu teledu, stereo a fideo ac yn mynd i'r theatr yn Llundain o leiaf ddwywaith y flwyddyn gyda'r teulu sy'n fy lletya"

"Mae gen i fwy o hunanhyder. Rydw i'n gallu gwneud llawer mwy drosaf fi fy hun. Mae fy Nghynhaliwr Lleoli Oedolion wedi fy helpu i wireddu pethau nad oeddwn i'n meddwl y byddwn i'n gallu eu gwneud!"

"Mae byw ar eich pen eich hun yn gallu bod yn unig iawn, mae fy Nghynhaliwr Lleoli Oedolion fel ffrind gorau i mi"

"Roedd yr ysbyty fel carchar, nawr dw i'n gallu mynd i gwrdd â'm ffrindiau a mynd i'r dafarn pan fyddai eisiau. Pan fyddai'n mynd yn isel rydw i'n gallu siarad â fy Nghynhaliwr Lleoli Oedolion ac rydyn ni'n gallu sortio popeth"

"Rydw i'n mwynhau'r cinio dydd Sul y mae fy Nghynhaliwr Lleoli Oedolion yn ei goginio i mi. Rydw i'n edrych ymlaen yn fawr iawn at y penwythnos nawr pan fyddai'n mynd i'w gweld hi"

"Mae fy mhlant yn byw yn Lloegr. Maen nhw'n dda iawn ond mae ganddyn nhw eu bywydau eu hunain. Rydw i'n mwynhau'r cwmni ar benwythnosau, mae'n braf gwybod fy mod yn gallu ei ffonio pan fyddaf angen rhywun i sgwrsio"

I gael rhagor o wybodaeth am Leoli Oedolion yng Ngorllewin Cymru, gallwch ymweld hefyd â gwefan Cynhalwyr Lleoli Oedolion - www.westwaps.org.uk

Beth Nesaf?

Gobeithio, erbyn hyn, y byddwch wedi cael gwell dealltwriaeth o'r ffordd y gallai person sydd angen Gwasanaethau Lleoli Oedolion elwa o'ch cyfraniad chi. Efallai y byddwch chi'n teimlo bod gennych rywbeth i'w gynnig? Neu efallai y byddwch yn gwybod am bobl eraill sydd â diddordeb?

Os hoffech chi ddod yn Gynhaliwr Lleoli Oedolion gyda Chynllun Lleoli Oedolion Gorllewin Cymru a Gwasanaeth Lleoli Oedolion Sir Gâr, cysylltwch â'r fîm neu llenwch y ffurflen gais amgaeedig a'i hanfon yn ôl atom ni:

Cynllun Lleoli Oedolion Gorllewin Cymru a Gwasanaeth Lleoli Oedolion Sir Gâr

Tŷ Llwyn Pisgwydd
Lôn Pisgwydd
Caerfyrddin
Sir Gâr
SA31 1SW

Rhif Ffôn : 01267 224200

Ffacs: 01267 224288

E-bost:

GwasanaethLleoliadauOedolion@sirgar.gov.uk



Cysylltu Bywydau -
Lleoli Oedolion yng Ngorllewin Cymru

Shared Lives -
Adult Placement in West Wales